Y
# SIED FAWR
Tonypandy

## Adeiladu Cartrefi, Cyfleoedd a Gwaddol Parhaus



beacon

WILLIS CONSTRUCTION

CYNT



WEDYN







# Adeiladu Cartrefi, Cyfleoedd a Gwaddol Parhaus

Y Sied Fawr yw prosiect adfywio blaenllaw £13 miliwn Beacon, sy’n trawsnewid hen safle diffaith y Co-op yng nghanol Tonypandy yn gyrchfan newydd fywiog lle gall pobl fyw, gweithio, cysylltu a ffynnu.

I gael ei gwblhau yn haf 2026, bydd y datblygiad pwysig hwn yn cynnwys 51 o fflatiau modern, effeithiol o ran ynni, yn cynnwys cartrefi arbenigol a gynlluniwyd I gefnogi oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â gofodau masnachol hyblyg fydd yn annog busnesau newydd, creu cyfleoedd cyflogaeth a dod ag egni newydd i ganol y dref.

Gan weithredu drwy Gynghrair Caffael Cymru, cafodd Willis Construction eu penodi gan Beacon yn brif gontractwr. Yn cael eu huno gan werthoedd ar y cyd ac ymroddiad i greu newid cadarnhaol, mae Beacon a Willis wedi cydweithio i gyflwyno llawer mwy na phrosiect adeiladu. Gyda’n gilydd, rydym yn buddsoddi mewn pobl, yn cryfhau cymunedau ac yn helpu sicrhau dyfodol mwy disglair ar gyfer Tonypandy.

Cafodd y prosiect adfywio hwn ei wneud yn bosibl drwy bartneriaeth ar y cyd, yn cyfuno cyllid Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a buddsoddiad o’r Gronfa Tai â Gofal ynghyd â chyllid preifat Beacon. Y canlyniad yw datblygiad cynaliadwy a safon uchel a gynlluniwyd i fod o fudd i’r gymuned am genedlaethau i ddod.

# Creu Effaith Barhaus

Wrth galon y Sied Fawr mae ymroddiad i gyflenwi gwerth cymdeithasol ystyrlon a sicrhau canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol.

## Effaith Amgylcheddol

- Dod â safle tir llwyd a fu'n ddiffaith am gyfnod maith yn ôl i ddefnydd.
- Cyflenwi cartrefi effeithiol iawn o ran ynni a adeiladwyd i safonau EPC A.
- Cefnogi byw cynaliadwy, teithio llesol a gostwng effaith ar yr amgylchedd.

## Effaith Economaidd

- Creu gofod ar gyfer busnesau a mentrau lleol newydd.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n dod i ganol y dref a chefnogi busnesau presennol.
- Denu buddsoddiad a hybu hyder yn nyfodol Tonypandy.




## Effaith Gymdeithasol

- Darparu cartrefi fforddiadwy a llety arbenigol ansawdd uchel.
- Creu cyfleoedd ar gyfer pobl leol drwy addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Cefnogi llesiant cymunedol a chryfhau cysylltiadau lleol.
- Buddsoddi mewn cynlluniau lleol drwy brosiect gwaddol y Sied Adeiladu.





# Ein Buddsoddiad Cymunedol

## Creu Cyflogaeth Leol

**7** o bobl leol yn cael eu cyflogi yn llawn-amser gyda Willis Construction

**4** swydd newydd wedi eu creu drwy'r prosiect

## Buddsoddi yn yr Amgylchedd

**Dros £17,000**

wedi eu buddsoddi mewn cynlluniau amgylcheddol a phrosiectau gwella cymunedol yn cynnwys creu perllan gymunedol a sesiynau amgylcheddol gyda dros **100** o ddisgyblion o ysgolion lleol



## Buddsoddi mewn Sgiliau a Gyrfaoedd y Dyfodol

**544** wythnos prentisiaeth wedi eu darparu

**56** wythnos lleoliad gwaith wedi eu cwblhau

**39** sesiwn addysgol wedi eu cyflwyno mewn **8** ysgol yng nghanol y Rhondda

**5** digwyddiad gyrfa wedi eu cefnogi, gan helpu pobl leol i ymchwilio cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant

## Cefnogi'r Gymuned

**40**

prosiect a gweithgareddau cymunedol wedi eu cefnogi, yn cynnwys Clwb Bechgyn a Merched Llwynypia, Siambr Fasnach Tonypandy a chynlluniau busnes lleol

**11**

cylchlythyr cymunedol wedi eu cyhoeddi i sicrhau fod preswylwyr lleol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y cyfnod adeiladu

Noddi cyfleoedd dysgu Cymraeg ar gyfer aelodau'r gymuned drwy Clwb Clebran

## Cydnabod am Ragoriaeth

- **Enillydd** Gwobr Contractwr gyda Ffocws ar y Gymuned gan Sefydliad Tai Siartredig Cymru
- **Derbyn** dwy Wobr Cynllun Adeiladwyr Ystyriol
- **Rhestr fer** Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu



## Ymroddiad i Safonau Rheoleiddio

Roedd preswylwyr Beacon yn rhan allweddol o wneud penderfyniadau adeg caffeal y prosiect. Preswylwyr wnaeth gynllunio cwestiynau'r tendr, gan fod yn rhan o'r panel gwerthuso a hyd yn oed gyfweld â'r prif ddau gynigydd fel rhan o'r broses caffael

# Ein Buddsoddiad

Buddsoddi
**£13 miliwn**



yng nghanol tref Tonypandy

Yn cynnwys
**13**
cartref arbenigol gydag oedolion gydag anghenon dysgu ychwanegol

Creu
**51**



cartref newydd

Datblygu
**3**
uned fasnachol

# Creu Gwaddol Parhaus

Mae'r buildSHED yn hyb ymgysylltu a dysgu arbennig a gafodd ei greu ar y safle adeiladu. Dan arweiniad Willis a Beacon, mae'r hyb yn gwasanaethu fel gofod cymunedol croesawgar a chynnal ymweliadau ysgol, gweithdai STEM, sesiynau llesiant a gweithgareddau crefft.

Yn y dyfodol, caiff  buildSHED ei reoli gan Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian a 4D Academy, gan ddarparu addysg adeiladol amgen, rhaglenni mentora sy'n cefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau newydd a chreu cyfleoedd sy'n parhau yn hir ar ôl cwblhau adeiladu.






# Edrych i’r Dyfodol



Mae datblygiad y Sied Fawr yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fo sefydliadau yn cydweithio gan rannu gweledigaeth ac ymrwymiad i’w cymuned. Yn fwy na phrosiect adfywio, mae’n fuddsoddiad mewn pobl, cyfle a chreu lle.

Drwy greu cartrefi newydd, cefnogi busnesau lleol, datblygu sgiliau a chryfhau cysylltiadau cymunedol, mae’r Sied Fawr wedi adeiladu dyfodol cryfach, mwy egnïol a llewyrchus ar gyfer Tonypandy a’i gymuned leol gan adael gwaddol o fudd i genedlaethau i ddod.





## CYSYLLTU Â NI:

01792 479200

ask@beacon.cymru

www.beacon.cymru

@beaconcymrugroup